

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

18 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

### Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18

Yn ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar y ffordd orau o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallant gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

### Rhoi sylw i'r gyllideb

Yn y Pedwerydd Cynulliad cytunodd yr holl Bwyllgorau i fabwysiadu dull cydgysylltiedig ar gyfer craffu ar y gyllideb yn seiliedig ar y perfformiad a'r canlyniadau sydd i'w sicrhau gyda'r adnoddau sydd ar gael, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd yn gyffredinol (yn seiliedig ar adborth o waith ymgysylltu).

Roedd y dull hwn yn ymwneud â'r pedair egwyddor o ran craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Defnyddiwyd yr egwyddorion hyn yn sail i holl bapurau briffio, sesiynau tystiolaeth ac adroddiadau'r Pwyllgor. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?



- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw, canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hwn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).*
- *Polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi, lliniaru effeithiau diwygio lles a pharatoi ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *Trefniadau ariannol byrddau iechyd lleol*
- *Paratoi i'r DU adael yr UE*
- *Cyllidebu carbon isel a pharatoi ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol*
- *Paratoi ar gyfer effaith y datganoli pellach sy'n rhan o Fil Cymru*
- *Effaith rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac a oes digon o adnoddau ar gyfer ei rhoi ar waith.*
- *Craffu ar y Gymraeg, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

### Ymgynghoriad drafft y gyllideb

Fel yn y gorffennol, rydym yn ymgynghori yn ystod toriad yr haf. Hefyd, rydym yn bwriadu cael math o 'sgwrs ar y cyfryngau cymdeithasol' pan fydd y gyllideb ddrafft wedi'i chyhoeddi, a fydd yn galluogi rhanddeiliaid i fynegi barn ychwanegol ar y ffigurau a gyhoeddir o fewn y gyllideb ddrafft. Rydym yn eich gwahodd i dynnu sylw'ch rhanddeiliaid at ein hymgyngoriad.



## Amserlen

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod y Gyllideb Ddrafft - 18 Hydref
- Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad - 29 Tachwedd (5 wythnos eistedd/6 wythnos i gyd)
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft - 6 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol - 20 Rhagfyr

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.10, os bydd eich Pwyllgor am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb, byddai'n dda cael yr ymateb erbyn dydd Gwener 18 Tachwedd.

Yn olaf, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu [Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru](mailto:Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru) .

Yn gywir



Simon Thomas

Cadeirydd

